OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 2935

## Rheoliadau Deddf Plant 1989 a Deddf Safonau Gofal 2000 (Rheoliadau Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2002

**Diwygio Rheoliadau Plant (Llety Diogel) 1991**

**10.** Caiff Rheoliadau Plant (Llety Diogel) 1991(**1**)) eu diwygio fel a ganlyn—

(a) yn rheoliad 2(1) (dehongli), yn y diffiniad o "children's home", yn lle "registered" rhoddir "private";

(b) yn rheoliad 5 (plant na fydd adran 25 o'r Ddeddf yn gymwys iddynt), ym mharagraff (1), yn lle "section 53" hyd at ddiwedd y paragraff hwnnw, rhoddir "section 90 or 91 of the Powers of the Criminal Courts (Sentencing) Act 2000 (detention at Her Majesty's Pleasure or for specified period)(**2**)."; ac

(c) yn rheoliad 7 (plant y bydd adran 25 o'r Ddeddf yn gymwys iddynt ac yn cael effaith arnynt yn ddarostyngedig i addasiadau)—

(i) yn y naill a'r llall o baragraffau (1)(b) a (3)(b), yn lle "residential care homes, nursing homes or mental nursing homes" rhoddir "care homes or independent hospitals"; a

(ii) ym mharagraff (3)(a) yn lle "residential care home, a nursing home or a mental nursing home" rhoddir "care home or an independent hospital".

(**1**) O.S. 1991/1505, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1992/2117, O.S. 1995/1398, O.S. 1996/692 ac O.S. 2000/694.
(**2**) 2000 p.6.